

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan Dr Simon Brooks

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu: Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)

Fe hoffwn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus fel a ganlyn:

Cydraddoldeb, dinasyddiaeth a'r Cynulliad fel gofod dinesig Cymru

Triniwyd â mater Gwasanaethau Dwyieithog hyd yma fel un ieithyddol. Fodd bynnag mae statws neilltuol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel gofod dinesig pobl Cymru yn golygu fod y mater hwn â goblygiadau llawer ehangach, a dwysach, na hynny.

Ers ei sefydlu, bu'r Cynulliad yn pwysleisio fod pob dinesydd Cymreig yn gyfartal, a bod y Cynulliad yn gorff cynhwysol a thryloyw. Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig, yn ei ffurf bresennol, yn syrthio'n brin o'r egwyddorion sylfaenol hyn sydd wrth wraidd ein democratiaeth yng Nghymru.

Mae'r methiant i gynnal gwasanaethau dwyieithog yng ngofod dinesig pobl Cymru yn wahanol, ac yn fwy difrifol, na'r methiant i'w cynnal mewn unrhyw fan arall yng Nghymru.

Ni ddylai'r Cynulliad weithredu'n groes i'r egwyddor fod dinasyddion Cymreig yn gyfartal. Fe all fod sgileffeithiau pellgyrhaeddol i unrhyw benderfyniad i gefnu ar egwyddor cydraddoldeb yn y gofod dinesig: o ran sut y canfyddir y Cynulliad gan bobl Cymru, ond hefyd, ac yn bwysicach, wrth osod cysail hynod beryglus, a fyddai, o'i ymestyn, yn caniatáu camwahaniaethu yn erbyn pob math o grwpiau lleiafrifol mewn cymdeithas.

Cofnod Trafodion y Cynulliad Cenedlaethol

O ddilyn y ddadl uchod, mae gan y Cofnod o Drafodion y Cynulliad le arbennig: dyma'r fan ble mae gofod dinesig Cymru yn weledol i bobl Cymru, trwy gyfrwng trafodaethau agored a democrataidd eu cynrychiolwyr etholedig. Fe fyddai

methiant i ddarparu'r rhain yn nwy iaith Cymru yn cefnu mewn modd sylfaenol ar egwyddor cydraddoldeb.

Gan hynny, fe ddylid diwygio'r Bil drafft i gynnwys ymrwymiad penodol i ddarparu Cofnod ysgrifenedig o Drafodion y Cynulliad, a hynny yn y ddwy iaith.

Fe sylwaf fod y Papur Ymgynghori (Awst 2011) yn nodi fod 'is-baragraff (6) yn ei gwneud yn glir nad yw'r Ddeddf o angenrheidrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun ddarparu cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg yn ogystal ag o'r Gymraeg i'r Saesneg ym mhob sefyllfa'. (t.6.)

Fe gyfiawnheir hyn wrth gyfeirio at enghraifft benodol Iwerddon. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng Cymru ac Iwerddon o ran: i) defnydd o'r iaith leiafrifol; ii) y ganran o'r boblogaeth y mae'r iaith leiafrifol yn famiaith iddi; iii) canfyddiad y boblogaeth o swyddogaeth yr iaith leiafrifol yn y bywyd cenedlaethol.

Mae'r gymhariaeth yn gwbl gamarweiniol.

Fe fyddai'n llawer gwell dilyn arfer da talaith New Brunswick, Canada yn y maes hwn. Fe geir cyfeiriad at Ddeddf Ieithoedd Swyddogol New Brunswick, 2002 ar tt.4-5. y Papur Ymgynghori, wrth ddadlau'r achos (a gefnogaf) o blaid 'cynnwys datganiad clir a syml mai'r Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol'.

Ond os felly, mae'n briodol olrhain goblygiadau ymarferol y datganiad uchod yn neddfwrfa New Brunswick.

Dywed Deddf Ieithoedd Swyddogol New Brunswick, 2002:

Proceedings of the Legislative Assembly

6 English and French are the official languages of the Legislature and everyone has the right to use either language in any debate and other proceeding of the Legislative Assembly or its committees.

7 Simultaneous interpretation of the debates and other proceedings of the Legislative Assembly shall be made available by the Legislature.

8 The records, journals and reports of the Legislative Assembly and its committees shall be printed and published in English and French and both language versions are equally authoritative.

<http://www.gnb.ca/0062/acts/acts/o-00-5.htm> (gwelwyd Hydref 14, 2011)

Dylai fersiwn cymal 8 o Ddeddf Ieithoedd Swyddogol New Brunswick, 2002 gael ei fabwysiadu yn y Bil drafft, gan ddod yn gymal 1C yn Adran 35 o'r fersiwn arfaethedig o Ddeddf 2006, sef, o gyfeirio ato yn Saesneg.

8 The records, journals and reports of the National Assembly for Wales and its committees shall be printed and published in Welsh and English and both language versions are equally authoritative.

Datganiadau eraill parthed cydraddoldeb ieithyddol ar wyneb Deddf Llywodraeth 2006

Ymhellach, fe argymhellwn fod swyddogion ac Aelodau Etholedig yn craffu ar gymalau 6-15 o Ddeddf Ieithoedd Swyddogol New Brunswick, 2002 er mwyn gweld a oes cymalau ychwanegol y byddai'n briodol eu cynnwys ar wyneb Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog Drafft

Credaf y gellid diwygio'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog Drafft fel a ganlyn:

- a. Gosod targedau mesuradwy priodol yn y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog.
- b. Gwella'r adran sy'n sôn am sut yr eir i'r afael â thystiolaeth a gyflwynir gan gyrff cyhoeddus allanol.

Dywedir ar tt.7-8 y Cynllun:

'Lle y gallai hyn amharu ar fusnes y Cynulliad Cenedlaethol, er enghraifft, os bydd dogfen yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg yn unig, efallai y bydd yn angenrheidiol i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud cais am grynodedb yn Saesneg neu drefnu cyfieithiad gan y trydydd parti.'

Rwy'n cytuno ei bod yn briodol darparu cyfieithiad o ddogfennaeth Gymraeg ar gyfer Aelodau Etholedig pe nas cyflwynwyd yn ddwyieithog.

Fodd bynnag, mae'n amhriodol y gall mai crynodeb yn unig a geir yn y Saesneg o ddeunydd Cymraeg. Yn anffodus, mae geiriad yr adran hon hefyd yn rhagweld sefyllfa ble mae rhai cyrff cyhoeddus yn methu â chyflawni eu dyletswyddau i gyflwyno tystiolaeth yn y Gymraeg ('Lle nad yw'n bosibl cael y dogfennau yn y ddwy iaith ...') (t.7.), a ble bydd y dystiolaeth yn cael ei hystyried yn llawn yn y Saesneg yn unig er gwaethaf hynny.

Ond ar yr un pryd fe ragwelir na fydd modd ystyried, ymhob achos, tystiolaeth gyfatebol yn llawn a gyflwynir yn y Gymraeg yn unig. Yma, hefyd, ceir awgrym y cais y Cynulliad symud y cyfrifoldeb am ddarparu cyfieithiad i'r corff cyhoeddus o dan sylw. Fe drinnir felly cyrff cyhoeddus sy'n methu â chynnig tystiolaeth yn ddwyieithog yn wahanol os yw'r methiant hwnnw yn effeithio ar y Saesneg yn hytrach nag ar y Gymraeg.

Fe all y paragraff hwn, fel y saif ar hyn o bryd, osod cynsail ar gyfer camwahaniaethu ieithyddol.

- c. Anghytunaf â'r geiriad yn yr adran 'recriwtio' sy'n datgan nad oes rhaid i ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer swydd y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar ei chyfer fedru'r Gymraeg. Mewn meysydd eraill, ble mae cymhwysyer benodol yn hanfodol, fe ddisgwylir i'r ymgeiswyr feddu ar y gymhwyster cyn gwneud cais am y swydd. Ym Mhrifysgol Caerdydd, er enghraifft, mae'n rhaid i bob myfyriwr tramor feddu ar gymhwyster yn y Saesneg cyn cychwyn yn y Brifysgol.

Yn wir, mae'r adran parthed Cyfle Cyfartal (t.16) yn nodi'n benodol ei bod yn hanfodol mai ar sail cymwysterau a sgiliau y dylid penodi unigolion i swyddi.

Pe dymunai'r Cynulliad Cenedlaethol ddilyn y trywydd o benodi unigolion i swyddi nad oes ganddynt y gymhwyster briodol ar eu cyfer, fe ddylid disgwyl i'r unigolyn o dan sylw ennill y gymhwyster, neu'r sgiliau, o dan sylw yn y cyfnod rhwng cael ei benodi i swydd, a dechrau gwaith yn y swydd honno.

Fe ellid, er enghraifft, anfon aelod o staff ar gwrs dysgu Cymraeg dwys a fyddai'n arwain at gymhwyster gydnabyddedig yn y Gymraeg. Ar ôl ennill y gymhwyster honno, fe allai'r unigolyn ddechrau ar ei swydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyllido cyrsiau galwedigaethol o'r fath eisoes (er enghraifft, athrawon sy'n dymuno gwella eu sgiliau iaith).

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Cynllun ynglŷn â pha gamau a gymerid pe na bai ymgeisydd di-Gymraeg mewn swydd y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar ei chyfer yn ennill y sgiliau iaith angenrheidiol (ei symud o'r swydd?).

Mae'n peri pryder y gall y cymal hwn osod cysail ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, gan arwain at sefyllfa ble mae nifer uchel o unigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg, nac ychwaith maes o law yn ei dysgu hyd at lefel benodol, yn cael eu penodi i swyddi ble mae'r Gymraeg yn hanfodol. Yn ei dro, fe all hyn gyfyngu'n aruthrol ar hawl aelodau o'r cyhoedd i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Tystiolaeth lafar

Rwyf yn barod i roi tystiolaeth lafar i bwyllgor, ac yn dymuno cael fy ystyried ar gyfer gwneud hynny.

DR SIMON BROOKS

Aelod o'r Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio
Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Caerdydd
14 Hydref 2011